Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Gweithio gyda Chymunedau

2019

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG36606 ISBN Digidol: 978 1 78964 621 4

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 3 |
| **Cefndir Polisi** | 3 |
| Ffyrdd presennol o reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd | 4 |
| Ymgysylltu â chymunedau | 5 |
| Cydnawsedd â pholisi Llywodraeth y DU | 6 |
| Rhestr Waredu | |
| **Pwrpas y ddogfen hon** | 6 |
| **Y Gymraeg** | 7 |
| **Trafodaethau cychwynnol** | 8 |
| Ffurfio Gweithgor a phennu'r Ardal Chwilio | 9 |
| Diffinio'r Ardal Chwilio | 9 |
| Rôl y Gweithgor | 10 |
| **Y Bartneriaeth Gymunedol** | 11 |
| Rôl y Bartneriaeth Gymunedol | 12 |
| Gwneud Penderfyniadau yn y Bartneriaeth Gymunedol | 13 |
| **Cytundeb y Bartneriaeth Gymunedol** | 14 |
| Gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned | 15 |
| Cyflwyno’r rhestr waredu | |
| **Cyllid i gefnogi gweithgareddau'r Bartneriaeth Gymunedol** | 16 |
| **Mynediad at wybodaeth dechnegol a gwyddonol** | 16 |
| **Cyllid ar gyfer y gymuned yn yr Ardal Chwilio a'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad** | 17 |
| Cyllid Buddsoddi Cymunedol | 17 |
| Sut y bydd y Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn cael ei weinyddu? | 19 |
| Sut y bydd y gymuned yn cael mynediad at y Cyllid Buddsoddi Cymunedol? | 19 |
| Buddsoddiad Ychwanegol Sylweddol yn y gymuned sy’n cynnig lleoliad | 20 |
| **Y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad** | 20 |
| **Hawl i Dynnu’n Ôl** | 21 |
| **Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd** | 22 |

# Cyflwyniad

1. Mae gwaredu gwastraff ymbelydrol yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r polisi ar hyn yng Nghymru. Ar sail consensws rhyngwladol a chyngor gwyddonol annibynnol, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ddaearegol (GUA[1]) fel yr ateb gorau a mwyaf diogel i reoli GUA yn y tymor hir. Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar gymuned neu gymunedau yn dweud eu bod yn fodlon cynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) ar gyfer GUA. Bydd gwaredu daearegol yn cynnig datrysiad diogel a pharhaol i'r broblem o waredu GUA.

2. Er bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu GUA yn ddaearegol, nid yw hyn yn golygu y bydd cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) o anghenraid yn cael ei adeiladu yng Nghymru. Nid yw'n golygu chwaith y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio codi CGD yng Nghymru. Mae ein polisi yn glir: ni fydd CGD ond yn cael ei godi yng Nghymru os bydd cymuned yn dweud ei bod yn fodlon cynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster o'r fath a bod modd dod o hyd i safle addas a diogel.

3. Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion am bolisi Llywodraeth Cymru ar ymgysylltu â chymunedau a'r cymorth sydd ar gael i gymunedau sydd am fod yn rhan o drafodaethau, heb ymrwymiad o flaen llaw, ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD.

4. Mae diogelwch ac amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd yn hanfodol i gyflawni gwaredu daearegol.

5. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y trefniadau ar gyfer gwaredu daearegol gan weithio gyda chymunedau rhwng 25 Ionawr a 20 Ebrill 2018. Mae ymatebion, crynodeb o'r materion a godwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.
6. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r ffordd y bydd y corff darparu, sef Radioactive Waste Management Ltd (RWM), yn gweithio â phartïon yng Nghymru sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD.

# Cefndir Polisi

7. Ym mis Mai 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi, sef: *Polisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei*

---

1 Mae gwastraff ymbelydrol gweithgarwch uwch yn cynnwys y categorïau canlynol o wastraff ymbelydrol – gwastraff lefel uchel, gwastraff lefel ganolraddol, ffracsiwn bach o wastraff lefel isel gyda chrynodiad o radioniwclidau penodol sy'n ddigonol i sicrhau na chaiff ei waredu fel gwastraff lefel isel.

*Actifedd*[2]. Yna, ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddwyd datganiad polisi pellach, sef: *Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Lleoli*[3]. Roedd y datganiadau polisi hyn yn cadarnhau'r polisi mai gwaredu daearegol yw'r dewis gorau ar gyfer rheoli GUA yn y tymor hir. Roeddynt hefyd yn cadarnhau ein polisi mai'r unig ffordd i gyflawni gwaredu daearegol yng Nghymru yw drwy weithio mewn partneriaeth â chymunedau a allai gynnig lleoliad gan ddefnyddio dull seiliedig ar gydsyniad.

8. Roedd y datganiad polisi ym mis Mai 2015 yn nodi'r rhesymau pam y bu i ni fabwysiadu gwaredu daearegol ynghyd â gwybodaeth gefndir. Roedd y datganiad polisi yn egluro bod gwaredu daearegol yn cael ei dderbyn yn rhyngwladol fel y dull gorau o reoli a gwaredu GUA. Mae'n dilyn cyngor a roddwyd i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gan y Pwyllgor Rheoli Gwastraff Ymbelydrol annibynnol (CoRWM)[4].

9. Mae polisi Llywodraeth Cymru ar waredu daearegol yn ymwneud â gwaredu GUA yng Nghymru. Os bydd gwastraff yn dod i Gymru i'w waredu yn sgil lleoli CGD mewn cymuned oedd wedi bodloni i hynny, bydd yn dod o dan bolisi Llywodraeth Cymru. Os bydd gwastraff, sy'n cael ei storio mewn safleoedd yng Nghymru ar y pryd neu sy'n codi yng Nghymru, yn gadael Cymru er mwyn ei waredu yn rhywle arall yn y DU, ni fydd hwnnw wedyn yn dod o dan bolisi Llywodraeth Cymru.

10. Mae gwaredu daearegol yn cynnig ateb diogel a pharhaol i'r gwaddol o GUA sydd wedi cronni dros y 60 blynedd diwethaf yn sgil y defnydd o ymbelydredd yn y lluoedd arfog, ym maes cynhyrchu trydan sifil ac ym meysydd diwydiant, addysg a meddygaeth. Mae hefyd yn cynnig dull o waredu'r gwastraff a gaiff ei gynhyrchu fel rhan o raglen ddisgwyliedig Llywodraeth y DU o orsafoedd pŵer niwclear newydd.

11. Nid yw dewisiadau eraill, er enghraifft parhau i storio ar yr wyneb, yn cynnig ateb parhaol ac maent yn rhoi'r cyfrifoldeb o reoli'r deunyddiau hyn yn ddiogel ar ysgwyddau cenedlaethau'r dyfodol. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai parhau i storio ar yr wyneb yn bodloni'r cyfrifoldeb sydd arnom tuag at genedlaethau'r dyfodol nac yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

---

[2] https://gov.wales/docs/desh/policy/150519-policy-on-the-management-and-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-cy.pdf

[3] https://gov.wales/docs/desh/publications/151210-geological-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-community-engagement-and-siting-processes-en.PDF

[4] Sefydlodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig y Pwyllgor Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn 2003 i roi cyngor arbenigol annibynnol ar reoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y DU yn y dyfodol. Ym mis Gorffennaf 2006, gwnaeth y Pwyllgor Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM) argymhellion ynghylch rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir ar ôl adolygu'r holl opsiynau oedd ar gael yn annibynnol. Roeddynt wedi argymell gwaredu daearegol, ynghyd â'i storio dros dro mewn cyfleuster diogel tra bo'r cyfleuster gwaredu'n cael ei ddatblygu, fel yr opsiwn gorau. Daeth CoRWM i'r casgliad y dylid mabwysiadu proses roedd cymunedau'n barod i gyfranogi ynddi, gan weithio mewn partneriaeth â chorff gweithredu. Yn 2013, roedd CoRWM wedi ategu'r argymhelliad a wnaeth yn 2006 i gefnogi cyfleuster gwaredu daearegol, gyda chymuned oedd yn barod i gynnig lleoliad ar ei gyfer. Mae gwybodaeth am CoRWM ar gael yn: https://www.gov.uk/government/organisations/committee-on-radioactive-waste-management

12. Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Radioactive Waste Management (RWM), y corff sy'n gyfrifol am ddarparu gwaredu daearegol, adroddiad, sef: “Review of Alternative Radioactive Waste Management Options”[5]. Wedi ystyried datblygiadau ym maes rheoli GUA, daethpwyd i'r casgliad yn yr adroddiad, er y gallai ffyrdd eraill o reoli a gwaredu leihau'r swmp o GUA sydd angen ei waredu’n ddaearegol, bydd angen CGD o hyd, gan nad yw’n ymarferol defnyddio'r ffyrdd eraill o waredu ar gyfer holl elfennau'r rhestr gwastraff ymbelydrol.

13. Ni ellir ond lleoli CGD yng Nghymru os bydd cymuned yn fodlon cynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster o'r fath. Ar ben hyn, bydd hefyd angen i CGD gael cymeradwyaeth y rheoleiddiwr diogelu'r amgylchedd perthnasol (sef Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru), a’r rheoleiddiwr diogelwch niwclear, sef y Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear (ONR). Yng Nghymru, bydd hefyd angen cael cymeradwyaeth i CGD drwy system gynllunio Cymru.

**Ffyrdd presennol o reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd**

14. Mae'r DU wedi cronni gwerth 60 blynedd o waddol GUA a fydd yn bodoli p’un ai a fydd gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn cael eu hadeiladu ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd ar safleoedd sy'n bodoli eisoes yng Nghymru[6], er enghraifft Wylfa Newydd, a fydd hefyd yn creu GUA yn ystod y cyfnod y bydd yn weithredol ac yn y cyfnod datgomisiynu. Er y bydd angen rheoli a gwaredu'r gwaddol o wastraff niwclear a gwastraff sy’n codi yn sgil adeiladu gorsafoedd newydd, y gwaddol sydd i gyfrif am y gyfran fwyaf o ddigon, sef 85% yn ôl swmp, o'r rhestr waredu gyflawn.

15. Gall cyfleuster storio dros dro modern a diogel ddal y gwastraff hwn yn y tymor byr i'r tymor canolig, ond mae storio’n galw am ymyrraeth ddynol barhaus i fonitro'r deunydd. Yn y dyfodol, bydd hefyd angen ailbacedu’r gwastraff ac ailadeiladu storfeydd i sicrhau nad yw’n achosi unrhyw risg i iechyd pobl neu'r amgylchedd. Mae ailbacedu ynddo’i hun yn gallu creu risg y bydd gweithwyr yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ac yn creu mwy o wastraff ymbelydrol y bydd angen ei waredu. Bydd cyfleusterau storio ar yr wyneb yn agored i newidiadau yn yr amgylchedd naturiol a bydd hefyd angen gwarchod y rhain yn barhaus i'w cadw’n ddiogel rhag gweithgareddau maleisus. Felly, mae storio yn golygu y bydd angen i genedlaethau'r dyfodol ymyrryd yn y gwaith o reoli GUA. Byddai gwaredu daearegol yn dileu'r angen hwn.

16. Yn dilyn y datganiad polisi ym mis Mai 2015, ymunodd Llywodraeth Cymru â rhaglen ar y cyd â Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i ddarparu gwaredu daearegol yn y DU. Llywodraeth y DU sy’n cyllido'r rhaglen, gyda’r bwriad o ddarparu gwaredu daearegol ar gyfer yr holl ddeunydd y mae

[5] https://rwm.nda.gov.uk/publication/geological-disposal-review-of-alternative-radioactive-waste-management-options/

[6] Llywodraeth Cymru Ynni Cymru: Newid Carbon Isel, 2012 https://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/energywales/?skip=1&lang=cy

angen ei waredu felly. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud yr hoffai ddarparu hwn drwy un safle CGD unigol, os oes modd, gan y gallai hyn olygu llai o effaith ar yr amgylchedd a llai o gost. Bydd angen dangos y gall un safle unigol gynnwys yr holl elfennau sydd ar y rhestr waredu yn ddiogel.

**Rhestr Waredu**

17. Dyma'r mathau penodol o wastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (a deunyddiau niwclear y gellid eu datgan yn wastraff) a fyddai'n cwmpasu'r rhestr waredu ar gyfer CGD:

- GLU a fyddai'n codi yn sgil ailbrosesu gweddillion tanwydd niwclear yn Sellafield;
- GLG a fyddai'n codi yn sgil safleoedd niwclear trwyddedig presennol, ym meysydd amddiffyn, meddygaeth, diwydiant, ymchwil a chyfleusterau addysgol;
- y gyfran fach o Wastraff Lefel Isel nad yw'n addas i'w gwaredu yn y Storfa Gwastraff Lefel Isel genedlaethol;
- gweddillion tanwydd o adweithyddion masnachol presennol (sydd eto i'w ddatgan yn wastraff) ac o adweithyddion ymchwil nad yw'n cael ei ailbrosesu;
- gweddillion tanwydd (sydd eto i'w ddatgan yn wastraff) a GLG o raglen adeiladu o'r newydd hyd at swm[7];
- stociau plwtoniwm - plwtoniwm nad yw'n cael ei ailddefnyddio i wneud tanwydd newydd (sydd eto i'w ddatgan yn wastraff);
- stociau wraniwm - gan gynnwys rhai sy'n codi yn sgil gweithgareddau cyfoethogi a saernïo tanwydd (sydd eto i'w ddatgan yn wastraff); a
- tanwydd arbelydredig a deunyddiau niwclear (sydd eto i'w ddatgan yn wastraff) o raglen amddiffyn y DU.

18. Fel elfennau cydrannol y rhestr waredu ar gyfer CGD, nid oes disgwyl y bydd y categorïau gwastraff a deunyddiau sydd wedi'u rhestru uchod yn newid yn sylweddol. At ddibenion trafodaethau â chymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad ar gyfer CGD, y disgrifiad hwn sy'n rhoi'r darlun mwyaf cyflawn o'r rhestr waredu bosibl ar hyn o bryd.

19. Ar y cam hwn o'r rhaglen, pan nad yw archwiliadau safle gwirioneddol wedi cael eu cynnal eto, nid oes dim sicrwydd y bydd gan gymuned sy'n barod i gynnig lleoliad ar gyfer CGD swmp digon mawr o graig addas i gynnwys y rhestr waredu gyflawn, nac y byddai RWM yn gallu llunio achos diogelwch ar gyfer y rhestr gyflawn. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn mynd ati gan dybio na fydd ond angen un CGD (yn amodol ar yr achos diogelwch yn bodloni gofynion y rheoleiddwyr annibynnol), ond pe bai'r naill sefyllfa neu'r llall a nodwyd uchod yn codi, efallai y byddai un gymuned yn cynnig lleoliad ar gyfer CGD lle gellid gwaredu rhan o'r rhestr yn unig, ac y byddai modd canfod a datblygu safle arall yn rhywle arall i waredu gweddill y rhestr. Mae

[7] Gweler baragraffau 2.11, 6.54 & 6.55 o bolisi BEIS - Implementing Geological Disposal – Working with Communities

Llywodraeth y DU yn ffafrio sefyllfa lle y gallai un CGD ymdopi â gwaredu'r rhestr a ddisgrifiwyd uchod.

20. Mae swmp y gwastraff a'r deunyddiau'n cael ei asesu a'i adolygu yn rheolaidd fel rhan o Restr Gwastraff Ymbelydrol y DU ac mae'r rhestr ar gael i'r cyhoedd. Mae'r swmp yn gallu newid oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys gwelliannau o safbwynt yr amcangyfrifon o'r gwastraff a fydd yn codi yn sgil gweithgareddau a gynlluniwyd a rhaglenni datgomisiynu. Mae polisi'r Llywodraeth hefyd yn mynnu bod y rheini sy'n defnyddio deunyddiau ymbelydrol yn lleihau i'r eithaf y gwastraff ymbelydrol y mae angen ei waredu, ac mae'r rheoleiddwyr yn edrych ar hyn.

21. I gefnogi gweithredu gwaredu daearegol mae RWM yn cyhoeddi disgrifiad wedi'i feintioli o'r rhestr waredu. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf yn 2018[8], ynghyd â'r methodolegau a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r adroddiad hwnnw.

**Ymgysylltu â chymunedau**

22. Roedd y datganiad polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015 yn cynnwys polisi amlinellol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cefnogi a rhoi gwybodaeth i gymunedau i sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau fel partneriaeth. Roedd y datganiad polisi yn cadarnhau ein bod yn ffafrio mabwysiadau trefniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau yng Nghymru sy'n gyson â'r rheini y mae Llywodraeth y DU yn eu mabwysiadu i'w defnyddio yn Lloegr, cyn belled ag y bo'r trefniadau hynny yn adlewyrchu anghenion cymunedau yng Nghymru ac anghenion Cymru gyfan.

**Cydnawsedd â pholisi Llywodraeth y DU**

23. Am y rhesymau a nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi ymuno â rhaglen CGD Llywodraeth y DU. Llywodraeth y DU sy'n cyllido'r rhaglen felly mae'n bwysig fod y trefniadau rhwng Cymru a Lloegr yn gydnaws â'i gilydd yng nghyswllt elfennau allweddol e.e. Hawl i Dynnu'n Ôl a'r Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd. I'r diben hwn, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) i ddatblygu cynigion polisi sy'n seiliedig ar brosesau ymgynghori â'r cyhoedd a datblygu polisïau Llywodraeth Cymru ond sydd hefyd yn cyd-fynd yn ddigonol â pholisïau Llywodraeth y DU, er mwyn cyflawni'r rhaglen yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r ddogfen hon yn dilyn strwythur tebyg i'r un yr oedd Llywodraeth y DU wedi'i ddefnyddio ar gyfer ei pholisi hithau ac mae'r testun hefyd yn gyffredin mewn mannau. Nid oes yn rhaid i drefniadau cydnaws fod yn union yr un fath, o anghenraid, ac rydym yn sylweddoli y bydd angen i'r trefniadau a gaiff eu mabwysiadu yng Nghymru adlewyrchu gwahaniaethau mewn polisi rhwng

[8] Y rhestr gwaredu daearegol: https://www.gov.uk/government/publications/2016-inventory-for-geological-disposal]

y ddwy wlad ac ystyriaethau fel yr iaith Gymraeg, trefniadau cynllunio ar wahân a strwythur awdurdodau lleol.

## Diben y ddogfen hon

24. Mae'r ddogfen hon yn darparu'r fframwaith polisi y dylai RWM ei ddilyn wrth weithio mewn partneriaeth â chymunedau (ac awdurdod[9] neu awdurdodau lleol y gymuned honno) yng Nghymru a allai fod â diddordeb mewn dysgu mwy am gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Yn ôl polisi Llywodraeth Cymru, ni ellir ond adeiladu CGD yng Nghymru os sefydlir partneriaeth gymunedol a bod y bartneriaeth honno'n cael ei chynnwys mewn trafodaethau; os yw'r awdurdod/awdurdodau lleol perthnasol yn cefnogi hynny ac os ceir canlyniad cadarnhaol i'r Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd yn y gymuned honno. Gan fod pob cymuned yn wahanol, mae'r polisi yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer anghenion cymunedau gwahanol ond mae'r strwythur yn sicrhau bod unrhyw gymuned a allai gynnig lleoliad yn cael ei thrin yn deg. Mae'r polisi hwn yn nodi swyddogaeth yr amrywiol bartïon fydd â rôl i'w chwarae yn y broses leoli.

25. Mae'r broses o ddod o hyd i leoliad ar gyfer CGD a'i ddewis yn galw am waith technegol manwl. Amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cymryd rhwng oddeutu 15 ac 20 mlynedd. Mae hwn yn brosiect sy'n pontio cenedlaethau ac a fydd yn rhychwantu sawl cylch gwleidyddol. Bydd adeiladu'r cyfleuster a'i roi ar waith yn cymryd dros 100 mlynedd arall.

26. Gall unrhyw unigolyn neu grŵp o bobl sydd â diddordeb yn y broses leoli ac sydd am gynnig ardal er ystyriaeth, ysgogi trafodaethau am leoliad arfaethedig ar gyfer CGD. Gall y parti dan sylw awgrymu ardal o unrhyw faint; gallai fod gymaint â sir, neu gall fod yn llecyn bach o dir.

27. Cyn gynted ag y bydd RWM a'r parti sydd â diddordeb wedi cyfnewid gwybodaeth gychwynnol ac wedi cytuno bod y cynnig yn haeddu ystyriaeth bellach, mae'n rhaid iddynt, gyda'i gilydd, roi gwybod i'r holl awdurdodau lleol perthnasol a chychwyn trafodaethau ar raddfa ehangach yn y gymuned. Bydd RWM yn cynnal archwiliadau fwy a mwy manwl dros nifer o flynyddoedd. Os yw'r gymuned yn parhau i fod â diddordeb yna bydd angen drilio tyllau turio dwfn er mwyn cynnal profion pellach i weld beth yw'r amodau daearegol yn ddwfn yn y ddaear. Bydd angen i RWM gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio drwy system Gynllunio Cymru i gynnal archwiliadau ar ffurf tyllau turio dwfn mewn lleoliadau posibl ac i Cyfoeth Naturiol Cymru am Drwyddedau Amgylcheddol. Mae hyn yn debygol o gymryd tua 18 mis, o wneud y cais i'r penderfyniad.

[9] Defnyddir y term awdurdod lleol yn y ddogfen hon drwyddi draw – mae hyn yn cyfeirio at y 22 awdurdod unedol yng Nghymru: https://gov.wales/topics/localgovernment/unitary-authorities/?skip=1&lang=cy

28. Gallai archwiliadau safle manwl gymryd hyd at 15 mlynedd, gan ei bod yn hanfodol bwysig deall y ddaeareg ac i fod yn hyderus bod modd cynllunio cyfleuster a fydd yn ynysu ac yn cynnwys y gwastraff ymbelydrol yn ddiogel. Pan fydd gan RWM ddigon o wybodaeth i fodloni ei hun bod CGD yn ymarferol a bod y gymuned wedi dangos ei bod yn barod i gynnig lleoliad ar ei gyfer, bydd RWM yn gallu gwneud cais am ganiatâd cynllunio i adeiladu CGD. Rhaid hefyd cael Trwyddedau Amgylcheddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Thrwydded Safle Niwclear gan y Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear cyn y gellir codi CGD.

29. Mae RWM yn rhagweld y bydd yn cymryd tua 10 mlynedd i adeiladu'r daeargelloedd cyntaf yn y cyfleuster. Mae'n debygol y bydd archwiliadau tanddaearol a phrofion yn parhau i gael eu cynnal ar ddaeareg y safle ar yr un pryd â'r gwaith adeiladu i wneud yn siŵr bod y CGD yn bodloni'r safonau uchel sy'n angenrheidiol o ran diogelwch a diogelu'r amgylchedd. Cyn gynted ag y bydd y daeargelloedd cyntaf wedi cael eu hadeiladu, bydd y gwaith o adeiladu'r cyfleuster a gwaredu'r gwastraff yn parhau ochr yn ochr, a bydd twneli a daeargelloedd newydd yn cael eu hadeiladu wrth i'r rhai sy'n bodoli eisoes gael eu llenwi.

# Y Gymraeg

30. Mae RWM yn ymwybodol o'r angen i sicrhau darpariaeth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog pan fo angen. Mae RWM yn gwbl ymwybodol mor bwysig yw sicrhau y cynhelir trafodaethau yn ddwyieithog. Mae RWM yn deall mor bwysig yw bod rhanddeiliaid yn cael dewis cyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg a byddant yn sicrhau darpariaeth briodol yn hyn o beth.

31. Mae deunyddiau cyhoeddus RWM sy'n berthnasol i Gymru eisoes yn ddwyieithog. Mae RWM yn sylweddoli mor bwysig yw sicrhau bod deunyddiau sy'n cael eu darparu i'r gymuned a allai gynnig lleoliad, partïon sydd â diddordeb neu i randdeiliaid yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

# Trafodaethau Cychwynnol

32. Bydd canfod cymuned sy'n barod i gynnig lleoliad ac sydd â safle addas ar gyfer CGD yn broses hir. Y rheswm am hyn yw y bydd yn cymryd peth amser i RWM ganfod, archwilio ac asesu safleoedd dichonol ac i wneud yn siŵr bod cymunedau sy'n dewis bod yn rhan o'r fenter yn deall beth fydd yn digwydd a sut y gallai effeithio arnynt. Y bwriad yw y bydd RWM, fel y corff sy'n darparu, yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i ateb eu cwestiynau a datrys unrhyw bryderon sydd ganddynt, er mwyn i'r gymuned allu gwneud penderfyniad deallus ynghylch a yw am gefnogi'r cyfleuster y bwriedir ei ddatblygu yn eu hardal ai peidio fel y bydd mwy a mwy o wybodaeth ar gael yn sgil archwiliadau RWM.

33. I ddechrau, bydd RWM yn codi ymwybyddiaeth o waredu daearegol gyda'r cyhoedd ac yn gwahodd unrhyw un sydd â diddordeb i gael sgwrs gychwynnol i gael gwybod mwy. Gall unrhyw un ysgogi trafodaethau â'r corff darparu. Rydym yn rhagweld y bydd awdurdodau lleol, perchnogion tir, busnesau, grwpiau cymunedol neu unigolion sydd â diddordeb yn gofyn am ragor o wybodaeth.

34. Gallai rhywun sydd â diddordeb ddod ymlaen heb unrhyw ddarn o dir penodol dan sylw ond bod ganddo awydd cyffredinol i gael gwybod os gellid datblygu CGD yn ei ardal ef. Neu, gallai partïon sydd â diddordeb ddod ymlaen gyda safle penodol dan sylw. Bydd yr archwiliadau y bydd RWM yn eu cynnal er mwyn deall a fyddai safle penodol yn addas yn ymestyn y tu hwnt i ardal y safle arfaethedig ei hun. Y rheswm am hyn yw, er mwyn penderfynu a allai safle fod yn addas, bydd angen i RWM ddeall amgylchedd daearegol yr ardal o'i amgylch.

35. Mae'n bosibl y bydd parti sydd â diddordeb yn awgrymu lleoliad o dan ddyfroedd tiriogaethol y DU ar gyfer CGD, gyda'r cyfleusterau ar yr wyneb wedi'u lleoli ar y tir a gallai hwn fod yn ddewis ymarferol.  Gellid hefyd gynnig tir sydd ym mherchnogaeth y llywodraeth. Os bydd trydydd parti yn cynnig safle posibl nad yw'n berchen arno, dylai'r trydydd parti ac RWM ystyried pa bryd y byddai'n briodol cynnwys perchen/perchnogion y tir mewn trafodaethau pellach.

36. Yn achos awdurdod lleol yn dod ymlaen gallai'r ardal sy'n cael ei hystyried fod yn eang iawn a byddai RWM am ddeall mwy am yr ardal dan sylw, ar sail gwybodaeth sy'n bodoli eisoes ac sy'n hawdd cael gafael arni.

37. Ym mhob sefyllfa, bydd RWM yn ymgymryd â gwaith cychwynnol i ddeall a oes unrhyw bosibilrwydd y gallai'r darn o dir dan sylw gynnig lleoliad ar gyfer CGD.  Ar y pwynt hwn, mae'n bosibl y bydd trafodaethau yn parhau i fod yn gyfrinachol (yn amodol ar ofynion datgelu yn neddfwriaethau'r gyfraith wybodaeth, gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004), er y dylid cyhoeddi trafodaethau o'r fath ar y cyfle cyntaf posibl os bydd y parti sydd â diddordeb ac RWM yn penderfynu symud ymlaen.

38. Efallai y bydd RWM yn penderfynu nad oes dim gobaith, neu ychydig iawn o obaith, o leoli CGD yn yr ardal dan sylw, neu y bydd y parti sydd â diddordeb, ar ôl cael rhagor o wybodaeth gan RWM, yn penderfynu nad oes ganddo ddiddordeb bellach. Fodd bynnag, os bydd RWM a'r parti sydd â diddordeb yn awyddus i fwrw ymlaen, mae'n rhaid iddynt roi gwybod i'r holl awdurdodau lleol perthnasol cyn cyhoeddi'r cynigion a dechrau trafod â thrigolion yr ardal leol.

## Ffurfio Gweithgor a dynodi Ardal Chwilio

39. Er mwyn cychwyn sgwrs â phobl yr ardal, bydd y parti sydd â diddordeb, RWM, cadeirydd annibynnol a hwylusydd annibynnol yn ffurfio Gweithgor. Mae'r term 'Gweithgor' yn cael ei ddefnyddio yn lle'r term 'tîm ymgysylltu ffurfiannol' a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad gan fod y cyntaf yn haws i randdeiliaid ei ddeall.

40. Yn ei hanfod, pwrpas y rhan gynnar hon yn y broses yw canfod ffeithiau, casglu gwybodaeth am y gymuned a rhoi gwybodaeth i'r gymuned am waredu daearegol. Ar y cam hwn, mae'n bwysig sicrhau bod y gymuned yn gallu cael trafodaethau cychwynnol a thrafodaethau canfod ffeithiau gydag RWM heb orfod aros i awdurdod lleol ymuno â'r Gweithgor. Felly, nid oes yn rhaid i awdurdod lleol perthnasol fod yn aelod o'r Gweithgor, er, o ddewis, byddai'n well cael o leiaf un awdurdod lleol perthnasol yn aelod ohono, o gofio'r wybodaeth werthfawr a'r profiad sydd ganddynt o'r ardal leol a'i phobl. Bydd awdurdodau lleol perthnasol yn cael cymorth ariannol gan RWM i gyfrannu gydol y broses, gan gynnwys fel aelod o'r Gweithgor, er mwyn sicrhau nad oes baich ariannol ychwanegol yn cael ei roi ar ysgwyddau trethdalwyr lleol. Darperir cyllid hefyd i gefnogi gweithgareddau'r Gweithgor. Bydd cyllid hefyd ar gael ar gyfer unrhyw fân dreuliau rhesymol a gaiff unigolion sy'n rhan o'r Gweithgor (e.e. costau teithio yn sgil mynychu cyfarfodydd). Bydd RWM yn rhoi cyngor a chanllawiau clir ar weithgareddau lle gellir talu treuliau a sut y caiff costau eu had-dalu.

41. Efallai y bydd y Gweithgor hefyd am ystyried a fyddai'n fuddiol gwahodd Parth Menter Arbennig [10] a chynghorau cymuned[11] i anfon cynrychiolydd. O gofio'r nifer fawr o gynghorau cymuned sydd mewn unrhyw ardal benodol, efallai na fydd yn ymarferol iddynt i gyd ymuno. Yn hytrach, efallai y byddent yn gallu cytuno gyda'i gilydd ar gynrychiolydd i ymuno â'r Gweithgor.

## Diffinio Ardal Chwilio

42. Un o'r pethau cyntaf y bydd angen i'r Gweithgor ei wneud yw penderfynu ar Ardal Chwilio. Yr Ardal Chwilio yw'r Ardal Ddaearyddol y bydd RWM yn ceisio canfod safleoedd addas posibl i leoli CGD ynddi. Mae'n bwysig diffinio ffiniau'r Ardal Chwilio er mwyn pennu aelodaeth briodol ar gyfer y Bartneriaeth Gymunedol, gan gynnwys yr awdurdod(au) lleol, ac i benderfynu a yw'n gymwys i gael cyllid Buddsoddi Cymunedol. Gallai prosiectau, cynlluniau a mentrau o fewn yr Ardal Chwilio fod yn gymwys i gael y cyllid hwn. Trafodir y Bartneriaeth Gymunedol a chyllid Buddsoddi Cymunedol yn mharagraffau 50-64 & 82-87 yn y drefn honno.

[10] https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy
[11] http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/Hafan__16738.aspx

43. Mae’n bosibl y bydd nifer o bartïon â diddordeb o wahanol ardaloedd yng Nghymru a Lloegr yn dod ymlaen yn ystod y broses leoli, felly mae’n bosibl y bydd nifer o Ardaloedd Chwilio yn rhan o'r broses ar unrhyw adeg benodol.

44. Bydd yr Ardal Chwilio yn tarddu o'r ardal gyntaf i gael ei chynnig ar gyfer ystyriaeth gan y parti sydd â diddordeb a’i diffinio yn ôl ffiniau ardaloedd cynghorau cymuned. Nid oes gan rai mannau yng Nghymru gyngor cymuned ond maent yn rhan o ardal cyngor cymuned. Felly, bydd yr Ardal Chwilio yn cwmpasu'r holl ardaloedd cynghorau cymuned y bydd RWM yn gallu ystyried safleoedd posibl ynddynt.

45. Yng nghyswllt ardaloedd sy'n cynnwys y posibilrwydd o ddatblygu o dan wely'r môr, dim ond yr ardal sydd ar y tir a gaiff ei chynnwys yn yr Ardal Chwilio.

46. Mae ffiniau daearyddol yr Ardal Chwilio yn debygol o newid wrth i'r gwaith o chwilio am leoliad posibl ar gyfer y cyfleusterau ar yr wyneb ac o dan y ddaear fynd rhagddo ac y deuir i ddeall mwy am yr ardal. Dros amser, bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn mireinio’r Ardal Chwilio (trafodir y Bartneriaeth Gymunedol yn fanylach yn baragraffau 50-64). Fel y bydd archwiliadau RWM yn mynd rhagddynt, mae’n bosibl y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn nodi ardaloedd nad yw am iddynt gael eu hystyried, neu’n cynnwys ardaloedd ychwanegol nad oedd yn eu hystyried yn rhan o'r Ardal Chwilio yn y lle cyntaf. Bydd unrhyw newidiadau i ffiniau ardaloedd cynghorau cymuned yn y dyfodol yn cael eu hadlewyrchu yn yr Ardal Chwilio wrth iddi ddatblygu dros amser.

47. Cyfyngir ar yr Ardal Chwilio hyd nes y bydd y Bartneriaeth Gymunedol, yn y pen draw, yn pennu safle penodol a’r gymuned y bydd y cyfleuster yn effeithio’n uniongyrchol arni drwy gael ei leoli yno. Cyfeirir at y gymuned honno fel y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad. Trafodir y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn fanylach yn baragraffau 98-102.

## Rôl y Gweithgor

48. Wrth benderfynu ar yr Ardal Chwilio, bydd y Gweithgor yn mynd ati i geisio deall yr ardal leol ac unrhyw broblemau neu gwestiynau sydd gan y gymuned sy’n byw ynddi, a chanfod aelodau o'r gymuned a allai fod â diddordeb mewn cydweithio ag RWM drwy ymuno â Phartneriaeth Gymunedol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys:

- casglu gwybodaeth am yr amrywiol bobl a sefydliadau yn yr ardal sydd â diddordeb neu sy'n debygol o gael eu heffeithio;
- casglu gwybodaeth er mwyn deall strwythurau daearyddol, cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, diwylliannol (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) a gweinyddol yr Ardal Chwilio;

- deall problemau, pryderon a chwestiynau'r gymuned yng nghyswllt gwaredu daearegol a'r broses o ddynodi lleoliadau posibl ar gyfer CGD;
- ymgysylltu ag awdurdod(au) lleol yn yr Ardal Chwilio (os nad ydynt wedi ymuno â'r gweithgor).

49. Bydd RWM yn defnyddio proses werthuso annibynnol i adolygu effeithiolrwydd y rhan hon o'r broses yn ymarferol er mwyn gwella ymgysylltu yn y dyfodol.

**Tabl 1 Aelodaeth y Gweithgor**

| Aelod | Rôl |
|---|---|
| Cadeirydd Annibynnol | Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod cyfarfodydd a thrafodaethau yn cael eu cynnal yn briodol. Gellid dewis rhywun ar gyfer y rôl hon o restr gymeradwy o gontractwyr ar ran y parti sydd â diddordeb, neu efallai y byddai modd defnyddio strwythurau sefydliadol cymunedol sy'n bodoli eisoes yn yr ardal leol. |
| Hwylusydd Annibynnol | Nod yr hwylusydd annibynnol fydd sicrhau bod trafodaethau yn mynd rhagddynt mewn ffordd adeiladol a defnyddiol. Gall yr hwylusydd helpu drwy ofyn cwestiynau perthnasol a llywio sgyrsiau er mwyn iddynt ymdrin â phwyntiau o ddiddordeb sy'n cael eu codi gan y partïon sydd â diddordeb ac aelodau eraill y gymuned. |
| Parti â Diddordeb | Sef y grŵp, y sefydliad neu'r unigolyn/unigolion oedd wedi ysgogi trafodaethau ag RWM yn y lle cyntaf. |
| RWM | Y corff darparu sy'n ymgysylltu â'r gymuned - gan roi gwybodaeth i'r gymuned a hyrwyddo manteision CGD. |
| Awdurdodau Lleol Perthnasol (dewisol) | Awdurdodau lleol perthnasol yw'r awdurdodau lleol sy'n cynrychioli'r Ardal Chwilio gyfan neu ran ohoni. Mae'n bosibl mai'r awdurdod lleol yw'r parti sydd â diddordeb. Os na, rhaid rhoi gwybod iddynt am y trafodaethau a'u gwahodd i ymuno â'r Gweithgor. |

# Y Bartneriaeth Gymunedol

50. Dim ond os yw awdurdod/awdurdodau lleol yr Ardal Chwilio yn cytuno i gymryd rhan y gellir ffurfio Partneriaeth Gymunedol ac y gall y Bartneriaeth honno barhau i weithredu. Os oes mwy nag un awdurdod lleol yn yr Ardal Chwilio, rhaid gwahodd bob un ohonynt i ymuno. Os bydd awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu nad yw am fod yn aelod, yna ni fydd yr ardaloedd cynghorau cymuned sydd wedi'u lleoli o fewn ei ffiniau yn rhan o'r Ardal Chwilio nac yn Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad. Wrth bennu aelodau posibl o'r Bartneriaeth Gymunedol, bydd angen i'r Gweithgor ystyried y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen ar y Bartneriaeth Gymunedol. Efallai y bydd am wahodd sefydliadau penodol i ymuno, yn ogystal â gwahodd

ceisiadau drwy broses agored. Dylai anelu at gael aelodaeth sy'n adlewyrchu'r gymuned yn yr Ardal Chwilio. Bydd panel dethol yn cynnwys aelodau o'r Gweithgor yn pennu aelodau posibl ar gyfer y Bartneriaeth Gymunedol. Mae'n rhaid i'r panel dethol gynnwys cadeirydd annibynnol, RWM ac unrhyw awdurdod lleol sydd ar y Gweithgor. Mae'n rhaid i'r broses o ddethol aelodau fod yn agored ac yn dryloyw. Bydd darpar aelodau yn cael eu penodi i'r Bartneriaeth Gymunedol ar ôl iddynt lofnodi Cytundeb Partneriaeth Gymunedol (gweler baragraffau 65-67 ).

51. Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau cymunedol, sefydliadau ac unigolion, sy'n adlewyrchu, gymaint ag y bo modd, y gymuned, unrhyw awdurdod(au) lleol ac RWM. Byddai'n briodol gwahodd cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli neu reoleiddio darnau mawr o dir, er enghraifft, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol neu Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, os bydd yr Ardal Chwilio yn cynnwys tir y maen nhw'n gyfrifol amdano.

52. Dylai'r Bartneriaeth Gymunedol geisio cynnwys cynrychiolwyr o gynghorau cymuned, pan fo'r rhain ar gael. O gofio'r nifer fawr o gynghorau cymuned a allai fod mewn Ardal Chwilio, efallai na fydd yn ymarferol iddynt i gyd fod yn aelodau o'r Bartneriaeth Gymunedol. Efallai y gallai cynghorau cymuned gynnig cynrychiolydd ar y cyd i fod yn aelod o'r Bartneriaeth Gymunedol i adlewyrchu eu barn. Ar ôl pennu'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad, efallai y bydd cyfle i gynghorau cymuned unigol fod yn rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol. Efallai y bydd hefyd yn briodol gwahodd cynrychiolwyr o Ardaloedd Menter Arbennig. Bydd aelodau sy'n cynrychioli sefydliadau yn gyfrifol am rannu'r holl wybodaeth a gaiff ei thrafod a'i datblygu drwy'r Bartneriaeth Gymunedol â gweddill y bobl yn eu sefydliadau.

53. Y Bartneriaeth Gymunedol sy'n gyfrifol am benderfynu faint o aelodau fydd ganddi ac am benodi cadeirydd. Ond, er mwyn i'r bartneriaeth weithredu'n effeithiol, awgrymir y dylai'r nifer hwn fod oddeutu 12 o bobl.

## Rôl y Bartneriaeth Gymunedol

54. Rôl y Bartneriaeth Gymunedol yw:

- hwyluso trafodaeth yn y gymuned;
- nodi'r wybodaeth berthnasol y bydd angen i bobl yn yr Ardal Chwilio a'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad ei chael, neu y byddent yn dymuno ei chael, am y broses leoli;
- gweithredu fel y prif gyfrwng ar gyfer trafodaethau rhwng y gymuned ac RWM;
- adolygu a mireinio ffiniau'r Ardal Chwilio wrth i archwiliadau RWM fynd rhagddynt;

- nodi blaenoriaethau o ran cyllid buddsoddi cymunedol;
- rhoi argymhellion i'r awdurdod(au) lleol ar y Bartneriaeth Gymunedol ynghylch a ddylid defnyddio'r Hawl i Dynnu’n Ôl ac os a phryd y dylid lansio Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd;
- cytuno ar raglen o weithgareddau i gryfhau dealltwriaeth y gymuned o'r broses leoli a goblygiadau posibl cynnig lleoliad ar gyfer CGD;
- llunio gweledigaeth ar gyfer y gymuned ac ystyried y rhan y gallai CGD ei chwarae yn y weledigaeth honno;
- monitro barn y cyhoedd yng nghyswllt lleoli CGD yn yr Ardal Chwilio a’r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad

55. Bydd llawer o wybodaeth i'w rhannu rhwng y gymuned, RWM a phartïon eraill (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear) dros gyfnod hir o amser. Mae'r Bartneriaeth Gymunedol yn ffordd o rannu'r wybodaeth honno ac o ganfod atebion i'r cwestiynau sydd gan y gymuned, o bosibl, am waredu daearegol, y broses leoli a sut y gallai’r gymuned elwa.

56. Gellid sefydlu is-grwpiau i ystyried rhai o'r materion a nodwyd uchod, er enghraifft, cyfathrebu ac ymgysylltu, y gallai pobl o’r gymuned fod yn rhan ohonynt. Fel arfer, byddem yn disgwyl i aelodau is-grwpiau gael eu penodi drwy broses agored; ond, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn awyddus i gyfethol aelodau sydd ag arbenigedd penodol.

57. Bydd gan RWM rôl allweddol i'w chwarae yn y Bartneriaeth Gymunedol fel ffynhonnell wybodaeth ac arbenigedd ar waredu daearegol ac fel y datblygwr sy’n gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned. Bydd RWM yn helpu'r gymuned i gael gafael ar wybodaeth o amrywiaeth o adnoddau, o’i dimau technegol a gwyddonol ei hun, neu gan bartïon annibynnol sy'n gallu helpu i ateb cwestiynau.

**Tabl 2 Aelodaeth y Bartneriaeth Gymunedol**

| Aelod | Y Swydd |
|---|---|
| Aelodau'r Gymuned | Sefydliadau ac unigolion sy'n adlewyrchu cyfansoddiad y gymuned |
| Awdurdodau Lleol Perthnasol | Awdurdodau lleol perthnasol yw’r rheini y mae eu hardaloedd cynghorau cymuned wedi’u lleoli o fewn yr Ardal Chwilio (a'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad, ar ôl iddi gael ei phennu). Os nad yw awdurdod lleol yn cytuno i ymuno neu’n penderfynu gadael y Bartneriaeth Gymunedol, yna ni fydd y tir o fewn yr ardaloedd cynghorau cymuned sydd wedi’u lleoli o fewn ei ffiniau bellach yn cael eu hystyried yn y broses leoli. Bydd awdurdodau lleol sy’n rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol yn gyfrifol am wneud dau benderfyniad allweddol. Y nhw fydd â'r gair olaf o ran a ddylid ceisio tynnu'r gymuned yn ôl o'r broses leoli ac yng nghyswllt ceisio barn y gymuned |

| | |
|---|---|
| | ynghylch a yw'n dymuno cynnig lleoliad ar gyfer CGD. |
| RWM | Aelod allweddol o'r bartneriaeth yn rhinwedd ei swyddogaeth fel y corff sy'n darparu CGD. Bydd yn rhoi gwybodaeth i'r Bartneriaeth Gymunedol yn ôl y galw ac yn darparu diweddariadau ar eu harchwiliadau o ran pa mor ymarferol yw i'r ardal gynnig lleoliad ar gyfer y cyfleuster. Bydd RWM yn egluro'r cysyniad o CGD a'i fanteision. RWM sy'n gyfrifol am yr holl benderfyniadau technegol. |
| Cadeirydd | Ar y dechrau, gallai hwn fod yr un cadeirydd â'r un oedd yn y gadair yn ystod trafodaethau'r Gweithgor, neu gellid penodi cadeirydd newydd. Bydd yn gwneud yn siŵr bod gwaith y Bartneriaeth Gymunedol yn deg, yn ddiduedd ac yn adlewyrchu anghenion y gymuned. |

**Gwneud penderfyniadau o fewn y Bartneriaeth Gymunedol**

58. Mae awdurdodau lleol yn chwarae rôl hollbwysig o ran cynllunio, datblygu seilwaith a darparu gwasanaethau. Am y rheswm hwn, ac i sicrhau atebolrwydd democrataidd, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y bydd yr awdurdod(au) lleol perthnasol sydd ar y Bartneriaeth Gymunedol yn gyfrifol am wneud dau benderfyniad allweddol. Y nhw fydd â'r gair olaf o ran y canlynol:

    - a ddylid ceisio tynnu'r ardaloedd cynghorau cymuned sydd o fewn ei ffiniau yn ôl o'r broses leoli (drwy weithredu'r Hawl i Dynnu'n Ôl);
    - ceisio barn derfynol y gymuned ynghylch a yw'n dymuno cynnig lleoliad ar gyfer CGD (h.y. cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd).

59. Fel yr eglurwyd uchod, gallai'r Ardal Chwilio a'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad gwmpasu tir sydd wedi'i leoli o fewn mwy nag un awdurdod lleol. Ni fydd y broses leoli yn mynd yn ei blaen o fewn ffiniau awdurdod lleol yng Nghymru os nad yw'r awdurdod dan sylw yn cytuno i fod yn rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol. Bydd unrhyw awdurdod lleol perthnasol yng Nghymru yn gallu dod â'r broses leoli i ben yn yr ardaloedd cynghorau cymuned sydd o fewn ei ffiniau, naill ai drwy adael y Bartneriaeth Gymunedol neu drwy weithredu'r Hawl i Dynnu'n Ôl. Gall yr awdurdod(au) lleol perthnasol naill ai wneud y penderfyniad i dynnu'r gymuned yn ôl o'r broses ei hun neu ofyn am farn y gymuned/cymunedau ynglŷn â hyn yn uniongyrchol.

60. Er mai'r awdurdod(au) lleol perthnasol fydd â'r gair olaf o ran y ddau benderfyniad allweddol hyn, dylent gynnwys aelodau eraill y Bartneriaeth Gymunedol yn y trafodaethau ynghylch a ydynt yn bwriadu ceisio tynnu'r gymuned yn ôl o'r broses a'r adeg briodol i lansio Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd. Yn yr un modd, dylai aelodau eraill y Bartneriaeth Gymunedol allu

gwneud argymhellion i'r awdurdod(au) lleol ar y Bartneriaeth Gymunedol ynghylch gweithredu'r Hawl i Dynnu’n Ôl ac amseriad y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

61. Fodd bynnag, mae’n rhaid i'r awdurdod(au) lleol perthnasol gael barn derfynol y gymuned, ar ffurf Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd, ynghylch a yw’n barod i gynnig lleoliad ar gyfer CGD cyn y bydd RWM yn gofyn am ganiatâd cynllunio a'r cymeradwyaethau rheoleiddiol angenrheidiol i adeiladu a gweithredu CGD. Dim ond mewn ardaloedd cynghorau cymuned sydd o fewn awdurdod lleol os yw'r awdurdod lleol hwnnw yn rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol ac wedi cytuno i’w gynnal y gellir cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

62. Os yw'r awdurdod(au) lleol yn cytuno ei bod yn adeg briodol i geisio barn y gymuned ynghylch a yw am gynnig lleoliad ar gyfer CGD ai peidio, yna'r Bartneriaeth Gymunedol fel corff fydd yn penderfynu ar y dull i'w ddefnyddio o ran cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd. Dylai barn y Bartneriaeth Gymunedol ynghylch pa ddulliau y gellid eu defnyddio i wneud hyn gael ei nodi yng Nghytundeb y Bartneriaeth Gymunedol, a’i ddiweddaru fel y bydd y farn ynglŷn â hyn yn datblygu dros amser. Trafodir y Cytundeb Cymunedol yn fwy manwl yn baragraffau 65-67.

63. Os yw'r awdurdod(au) lleol perthnasol yn cytuno y dylai’r gymuned chwarae rhan uniongyrchol yn y penderfyniad i dynnu’r gymuned yn ôl o'r broses, yna bydd y Bartneriaeth Gymunedol fel corff yn ystyried pa ddull y dylid ei ddefnyddio i geisio barn y gymuned ar y posibilrwydd o dynnu’n ôl o'r broses. Dylid nodi barn y Bartneriaeth Gymunedol ynghylch pa ddull y gellid ei ddefnyddio ar gyfer hyn yng Nghytundeb y Bartneriaeth Gymunedol, a’i ddiweddaru fel y bydd y farn ynglŷn â hyn yn datblygu dros amser. Trafodir yr Hawl i Dynnu’n Ôl a'r Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd terfynol yn fwy manwl yn baragraffau 103-109 & 110-118 yn y drefn honno.

64. Y Bartneriaeth Gymunedol ddylai wneud pob penderfyniad arall, er enghraifft ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer cyllid buddsoddi cymunedol neu yng nghyswllt cytuno ar raglen o weithgareddau. Lle'r Bartneriaeth Gymunedol fydd penderfynu sut y bydd yn gwneud y penderfyniadau hyn, er enghraifft, a oes yn rhaid iddynt fod yn unfrydol, neu a yw mwyafrif yn ddigon a beth y gellir ei ystyried yn gworwm. Dylid nodi hyn yng Nghytundeb y Bartneriaeth Gymunedol.

**Cytundeb y Bartneriaeth Gymunedol**

65. Bydd darpar aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol yn llunio ac yn llofnodi Cytundeb Partneriaeth Gymunedol. Cyn gynted ag y bydd y Cytundeb Partneriaeth Gymunedol yn ei le, gellir darparu cyllid Buddsoddi Cymunedol. (Trafodir Cyllid Buddsoddi Cymunedol ymhellach yn mharagraffau 82-87)

66. Bydd y Cytundeb yn nodi'r egwyddorion a fydd yn sail i sut y bydd aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol yn gweithio gyda'i gilydd, eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dylai gynnwys cylch gorchwyl sy'n egluro sut mae'r Bartneriaeth Gymunedol yn gweithio, sut y bydd yn gwneud penderfyniadau a sut y bydd yn datrys anghydfodau, ynghyd â rhaglen amlinellol o weithgareddau a sut y caiff y cynnydd o ran cwblhau'r gweithgareddau ei fonitro fel y nodir ym mharagraffau 65-67. Bydd RWM yn darparu templed o Gytundeb Partneriaeth Gymunedol a chanllawiau pellach.

67. Yn y lle cyntaf, bydd y Cytundeb yn cwmpasu'r cyfnod sy'n dilyn yn syth ar ôl sefydlu'r Bartneriaeth Gymunedol. Fel y bydd y broses leoli yn mynd rhagddi, mae'n bosibl y bydd y Cytundeb yn esblygu ac yn cael ei adolygu, er enghraifft i adlewyrchu unrhyw newid yng nghwmpas daearyddol yr Ardal Chwilio ac, o ganlyniad, yn yr aelodaeth.

**Gweithgareddau Ymgysylltu â'r Gymuned**

68. Bydd angen i'r Bartneriaeth Gymunedol ymgysylltu â'r gymuned dros gyfnod hir o amser. Mae cael pobl i chwarae rhan weithredol yn unrhyw fater yn gallu bod yn her, ac mae lleiafrif uchel ei gloch yn gallu tra-arglwyddiaethu. Felly mae'n bwysig cael y gymuned i gyfranogi drwy amrediad eang o sianeli.

69. Un ffordd o wneud hyn fyddai cynnal cyfarfodydd cyhoeddus agored ar ffurf Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol, gan wahodd pobl o'r Ardal Chwilio ac o ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos. Gallai'r Fforwm gyfarfod yn rheolaidd a gallai hefyd fodoli ar-lein, gan roi cyfle i'r Bartneriaeth Gymunedol roi adroddiad ar y gweithgareddau y mae wedi'u cynnal a chanlyniad y gweithgareddau hynny. Byddai hefyd yn gyfle i aelodau'r gymuned godi cwestiynau a materion y maen nhw am eu gweld yn cael sylw. Gellid wedyn fwydo'r rhain i mewn i'r rhaglen gweithgareddau. Bydd yn bwysig cyhoeddi pob cyswllt rhwng y Bartneriaeth Gymunedol a phobl yn y gymuned.

70. Gallai'r Bartneriaeth Gymunedol hefyd ystyried ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwaith maes pwrpasol â grwpiau penodol (er enghraifft ymgysylltu â phobl ifanc drwy ysgolion a cholegau) a defnyddio rhwydweithiau sydd eisoes ar gael i gyfathrebu â phobl. Bydd hefyd yn bwysig ystyried sut i ddelio â materion perthnasol i amrywiaeth a hygyrchedd er mwyn sicrhau nad yw pobl o fewn yr Ardal Chwilio neu'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn cael eu hatal rhag cymryd rhan.

**Cyflwyno'r rhestr waredu**

71. Mater pwysig y bydd angen ei drin a'i drafod fel rhan o ymgysylltu â'r gymuned yw'r rhestr waredu. Fel y nodir ym mharagraffau 17-21 mae'r rhestr waredu yn cynnwys nifer o gategorïau o wastraff a deunyddiau, gan gynnwys gweddillion tanwydd a GLG o orsafoedd pŵer niwclear newydd.

72. Bydd y rhestr yn cynnwys swmp diffiniedig o weddillion tanwydd a Gwastraff Lefel Ganolraddol o orsafoedd pŵer niwclear newydd. Roedd Papur Gwyn Llywodraeth y DU yn 2014 yn datgan fod y diwydiant ar y pryd hynny wedi argymell 16 gigawat electroneg o bibell niwclear newydd. Fe fydd angen i Lywodraeth y DU drafod gwaredu'r gweddillion tanwydd a'r GLG ychwanegol gyda'r cymunedau sy'n rhan o'r broses leoli a dod i gytundeb ynghylch y mater.

## Cyllid i gefnogi gweithgareddau'r Bartneriaeth Gymunedol

73. Bydd RWM yn darparu cyllid ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu gydol y broses. Bwriad y cyllid yw cefnogi gweithgareddau'r Gweithgor a'r Bartneriaeth Gymunedol.

74. Pwrpas cyllid ymgysylltu yw talu costau gweithgareddau ymgysylltu'r Bartneriaeth Gymunedol, gweithgareddau casglu gwybodaeth a gwasanaethau cymorth a allai fod yn angenrheidiol. Caiff ei ddefnyddio i dalu'r costau gweinyddol sydd ynghlwm â gweithredu'r Bartneriaeth Gymunedol ac alldalu cyllid buddsoddi cymunedol. Bydd hefyd yn darparu ar gyfer hwyluswyr annibynnol i weithio gyda'r Bartneriaeth Gymunedol a'r Fforwm Rhanddeiliaid i herio a rhoi canllawiau adeiladol er mwyn sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a, lle bo modd, helpu i gymodi lle ceir gwahaniaeth barn.

75. Gallai'r gweithgareddau ymgysylltu a chasglu gwybodaeth y gallai'r Bartneriaeth Gymunedol ymgymryd â nhw yn sgil cyllid ymgysylltu gynnwys y canlynol:

- gweithgareddau y gallai'r gymuned ddysgu am waredu daearegol drwyddynt;
- comisiynu adroddiadau ar faterion penodol;
- cael cyngor technegol a gwyddonol annibynnol;
- gweithgareddau cyfathrebu, er enghraifft Fforwm Rhanddeiliaid, gwefannau, taflenni gwybodaeth, cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau gwybodaeth ac allgymorth.

76. Bydd awdurdodau lleol perthnasol yn cael cymorth ariannol gan RWM i gyfrannu gydol y broses, gan gynnwys fel aelod o'r Bartneriaeth Gymunedol, rhag rhoi baich ariannol ychwanegol ar drethdalwyr lleol. Bydd Cyllid Ymgysylltu hefyd ar gael i dalu am fân dreuliau rhesymol unigolion sy'n cymryd rhan yng ngwaith y Bartneriaeth (e.e. costau teithio at ddibenion mynychu cyfarfodydd). Bydd RWM yn rhoi cyngor a chanllawiau clir ar ba

weithgareddau sy'n gymwys o ran talu treuliau a sut y bydd y costau hynny'n cael eu had-dalu.

## Mynediad at wybodaeth dechnegol a gwyddonol

77. Mae’n hanfodol bwysig bod cymunedau yn gallu ymddiried yn yr wybodaeth a roddir iddynt am y broses leoli, gan gynnwys materion technegol a gwyddonol perthnasol. RWM yw'r rhai cyntaf i droi atynt am wybodaeth ynghylch gwaredu daearegol a'r broses leoli. Bydd y Bartneriaeth Gymunedol hefyd yn gallu troi at gorff cynghori annibynnol y Llywodraeth, CoRWM ac at reoleiddwyr.

78. Gall y Bartneriaeth Gymunedol hefyd gomisiynu adroddiadau ac ymchwil gan arbenigwyr annibynnol ar bynciau penodol, fel rhan o'r rhaglen o weithgareddau a gytunwyd. O gofio'r amrywiaeth o gyngor a gwybodaeth sydd ar gael, mae’n bosibl y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cael datganiadau croes i'w gilydd gan bartïon gwahanol. Os felly, mae'r Llywodraeth yn darparu adnodd y gall y Bartneriaeth Gymunedol ei defnyddio i gael barn arbenigwyr annibynnol ar faterion technegol neu wyddonol sydd heb eu datrys neu sy’n destun dadl.

79. Mae Llywodraeth Cymru a BEIS wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â nifer o Gymdeithasau Dysgedig, sydd wedi cytuno ar system y gall y Bartneriaeth Gymunedol ei defnyddio i geisio barn eu haelodau am gwestiynau technegol neu wyddonol sydd heb eu datrys sydd ganddi ar ôl trafod ag RWM, y rheoleiddwyr ac unrhyw waith ymchwil neu adroddiad y mae wedi'i gomisiynu. Ni ragwelir y bydd y system hon yn cael ei defnyddio’n rheolaidd, dim ond pan fydd materion technegol neu wyddonol y mae dadl yn eu cylch neu sydd heb eu datrys yn codi yn sgil ymgysylltu â’r gymuned a bod un o'r partïon cyfrannog yn teimlo y byddai’n ddefnyddiol cael barn aelod o Gymdeithas Ddysgedig berthnasol ar ben yr holl wybodaeth y maent eisoes wedi’i chael gan RWM. Gall RWM hefyd ddefnyddio'r system.

80. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gan y canlynol: BEIS; Llywodraeth Cymru; RWM; Cymdeithas Ddaearegol Llundain; y Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol; a Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Bydd y Cymdeithasau Dysgedig hyn yn ffurfio pwyllgor er mwyn penderfynu ar arbenigwr priodol (gan ddibynnu ar y testun) i roi barn. Gallai hon fod yn farn unigol neu’n farn gyfun gan grŵp o bobl. Os bydd y cwestiwn y tu hwnt i arbenigedd y Pwyllgor, gall y Pwyllgor ofyn i Gymdeithas Ddysgedig sydd ddim wedi llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

# Cyllid ar gyfer y gymuned yn yr Ardal Chwilio a'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad

81. Ar ben y Cyllid Ymgysylltu sydd wedi'i egluro ym mharagraffau 73-76 bydd Cyllid Buddsoddi Cymunedol ar gael i gymunedau sy'n cymryd rhan yn y broses h.y. cymunedau yn yr Ardal Chwilio a'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad, a buddsoddiad ychwanegol sylweddol i'r gymuned sy'n cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn y pen draw.

### Cyllid Buddsoddi Cymunedol

82. Mae CGD yn fuddsoddiad seilwaith gwerth biliynau a biliynau o bunnoedd ac mae'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr economi leol. Amcangyfrifir y bydd CGD yn dod â gwaith a buddion i'r economi am fwy na 100 mlynedd. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd yn cyflogi tua 600 o staff crefftus ar gyflog da yn uniongyrchol bob blwyddyn, dros oes y prosiect, gyda'r gweithlu'n codi i dros 1000 o bobl yn ystod y cyfnod adeiladu ac yn nyddiau cynnar gweithrediad y prosiect. Ar ben hyn, mae hefyd yn debygol o gynnwys buddsoddiadau mawr mewn cyfleusterau cludiant lleol a seilwaith arall, yn ogystal â buddiannau eilaidd ym maes diwydiant, adnoddau addysg lleol a diwydiannau gwasanaeth lleol. Ond, ni fydd y buddiannau hyn yn ffaith am nifer o flynyddoedd. Felly mae Llywodraeth y DU yn darparu Cyllid Buddsoddi Cymunedol i'r cymunedau hynny sy'n ffurfio Partneriaethau Cymunedol ac sy'n cymryd rhan yn y broses leoli.

83. Bydd y cyllid ar gael cyn gynted ag y bydd y Bartneriaeth Gymunedol wedi'i ffurfio ac y bydd Cytundeb Partneriaeth Gymunedol wedi cael ei lofnodi. Bydd yn parhau cyhyd ag y bydd y gymuned yn aros yn rhan o'r broses leoli ac yn ymgysylltu ar ffurf rhaglen o weithgareddau.

84. Yn ystod camau cyntaf y broses leoli, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddarparu Cyllid Buddsoddi Cymunedol gwerth hyd at £1 miliwn i bob cymuned bob blwyddyn. Bydd hwn yn codi i hyd at £2.5 miliwn i bob cymuned bob blwyddyn yng nghyswllt cymunedau lle cynhelir archwiliadau tyllau turio dwfn i asesu pa mor addas yw safle yn ddaearegol. I ddechrau mae'n bosibl y bydd gan nifer o gymunedau ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r broses a bydd y rhain yn mynd trwy broses ddethol er mwyn pennu nifer llai o gymunedau a fydd yn mynd ymlaen i'r cam archwilio tyllau turio dwfn. Bydd RWM yn darparu'r cyllid hwn. Ni ddylid ei ddefnyddio i gywiro diffyg yng nghyllidebau awdurdodau lleol. Mae'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn ychwanegol at y Cyllid Ymgysylltu a ddisgrifir uchod ym mharagraffau 73-76.

85. Mae'n rhaid gwario Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn unol ag arferion gorau o ran rhoi gwerth am arian fel y nodir yng nghanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi

ar Reoli Arian Cyhoeddus ac yn unol â gofynion cyfreithiol eraill, gan gynnwys rheolau cymorth gwladwriaethol. Bydd angen i RWM sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddosbarthu yn unol â'r gofynion rheoleidd-dra a phriodoldeb sydd wedi'u nodi yn y canllawiau. Mae rheoleidd-dra yn ei gwneud yn ofynnol bod y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac awdurdodau dirprwyedig. Mae priodoldeb yn ymwneud â bodloni safonau uchel o ran ymddygiad cyhoeddus, gofynion llywodraethu cadarn a disgwyliadau seneddol (ac, yn benodol, tryloywder).

86. Mae Llywodraeth y DU wedi llunio egwyddorion lefel uchel o ran defnyddio cyllid buddsoddi cymunedol. Gellir defnyddio'r cyllid i dalu am brosiectau, cynlluniau neu fentrau sy'n:

- gwella llesiant cymunedau, er enghraifft gwella cyfleusterau'r gymuned, gwella ansawdd bywyd neu iechyd a lles y gymuned.
- ychwanegu at yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, gan gynnwys treftadaeth naturiol a diwylliannol, yn enwedig os gellir dangos manteision economaidd, drwy gyfrwng twristiaeth er enghraifft;
- darparu cyfleoedd o ran datblygu economaidd, er enghraifft, cyfleoedd gwaith, creu swyddi, datblygu sgiliau, addysg neu hyfforddiant, hybu mentrau lleol, datblygiad economaidd hirdymor neu arallgyfeirio economaidd.

87. Bydd angen i'r Bartneriaeth Gymunedol ystyried yr egwyddorion hyn ochr yn ochr ag unrhyw gynlluniau neu strategaethau economaidd-gymdeithasol neu weledigaeth economaidd ar lefel leol er mwyn llunio meini prawf cyllido sy'n benodol i'r ardal leol. Efallai y byddant am ystyried mentrau cyllido a allai eu helpu i gael mwy o fudd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD.

## Sut y bydd Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn cael ei weinyddu?

88. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n beth doeth pe bai rhyw gorff arall ar wahân i RWM yn gweinyddu'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol. Bwriad hyn yw cynnig mwy o dryloywder ac annibyniaeth ar RWM, fel cyfrwng y cyllid. Mae'n rhaid i'r corff sy'n gweinyddu'r cyllid fod yn 'endid' cyfreithiol gan y bydd angen iddo ymrwymo i gytundeb neu gytundebau â RWM, cyflogi staff i gefnogi ymgeiswyr am gyllid ac ymrwymo i gytundebau i ryddhau cyllid ar gyfer prosiectau.

89. Gellid defnyddio corff cyhoeddus neu gymunedol priodol sy'n bodoli eisoes i weinyddu'r cyllid os mai dyna yw dymuniad y Bartneriaeth Gymunedol, cyn belled ag y bo'r corff dan sylw yn meddu ar y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol, ei fod yn bersonoliaeth gyfreithiol a bod y penodiad yn cydymffurfio â'r holl reolau caffael perthnasol.

**Sut y bydd y gymuned yn cael mynediad at y Cyllid Buddsoddi Cymunedol?**

90. Bydd Cyllid Buddsoddi Cymunedol ar gael ar gyfer prosiectau, cynlluniau a mentrau yn yr Ardal Chwilio a'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad ar ôl iddi gael ei phennu. Wedi iddi gael ei phennu, efallai y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn penderfynu rhoi blaenoriaeth i geisiadau o fewn ffiniau'r Gymuned honno.

91. Bydd modd cael mynediad at y cyllid drwy broses ymgeisio dryloyw ac agored. Bydd yn rhaid i'r ymgeiswyr nodi ar gyfer beth maen nhw am gael y cyllid, sut y bydd yn dod â budd i'r gymuned a sut mae'n bodloni unrhyw feini prawf y cytunwyd arnynt yn lleol. Dylid cyflwyno ceisiadau i weinyddwr y gronfa. Byddai Panel Buddsoddi Cymunedol yn adolygu'r argymhellion a wneir gan weinyddwr y gronfa ac yn penderfynu ar geisiadau am gyllid ar sail yr egwyddorion sydd wedi'u nodi ym mharagraff 86 ac unrhyw feini prawf ychwanegol y mae'r Bartneriaeth Gymunedol wedi penderfynu eu defnyddio. Bydd y Panel Buddsoddi Cymunedol yn cynnwys RWM ac aelodau eraill o'r Bartneriaeth Gymunedol. Efallai y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn dewis penodi aelodau i'r Panel Buddsoddi Cymunedol drwy broses agored. Bydd gweinyddwr y cyllid yn rhoi cyngor a chymorth i helpu aelodau'r gymuned wneud cais am gyllid.

92. Mae Llywodraeth y DU, a fydd yn darparu'r cyllid drwy RWM, yn sylweddoli y bydd rhai prosiectau, cynlluniau neu fentrau yn ymestyn dros nifer o flynyddoedd. Er y bydd y cyllid ar gael ar sail flynyddol ni ddylai hyn fod yn rhwystr rhag cyllido prosiectau a fydd yn rhedeg dros nifer o flynyddoedd. Bydd RWM yn rhoi canllawiau pellach ar hyn.

93. Os bydd y gymuned neu RWM yn tynnu'n ôl o'r broses leoli, bydd y cyllid buddsoddi cymunedol yn dod i ben yn y gymuned honno. Bydd unrhyw gyllid y mae'r Panel Buddsoddi Cymunedol wedi ymrwymo iddo yn y flwyddyn ariannol honno yn cael ei dalu.

**Buddsoddiad Ychwanegol Sylweddol ar gyfer y gymuned sy'n cynnig lleoliad**

94. Bydd Llywodraeth y DU yn darparu buddsoddiad ychwanegol i'r gymuned sy'n cael ei dewis yn y pen draw i gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Yng nghyswllt y gymuned sy'n cael ei dewis, bydd y buddsoddiad ychwanegol sylweddol yn cymryd lle'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn ychwanegu at y manteision economaidd sylweddol nodweddiadol sy'n dod yn sgil cynnig lleoliad ar gyfer prosiect seilwaith mawr ac yn gydnabyddiaeth o ymrwymiad hirdymor y gymuned er budd y wlad. Gallai'r buddsoddiad gynnwys addysg neu sgiliau gwell, seilwaith cludiant gwell neu gyfleusterau hamdden gwell ar lefel leol. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn sylweddol - cymaint â phrosiectau CGD rhyngwladol eraill.

95. Mae'r buddsoddiad yn ychwanegol at y buddsoddiad a'r swyddi sy'n dod i ardal yn sgil prosiect seilwaith mawr o'r fath. Mae hefyd yn ychwanegol at unrhyw gyllid ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio sydd ynghlwm â lleddfu'r effeithiau mae datblygu CGD yn eu cael, y Cyllid Buddsoddi Cymunedol a'r Cyllid Ymgysylltu a gaiff ei ddarparu yn ystod y broses leoli. Bydd RWM yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Gymunedol i bennu gweledigaeth gymunedol, a sut y gallai hyn effeithio ar y pecyn buddsoddiad ychwanegol sylweddol.

**Eiddo - Digolledu**

96. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn sylweddoli efallai bod cymunedau yn poeni am yr effaith y gallai seilwaith gwaredu daearegol ei chael ar werth eiddo yn yr ardal leol. Mae'r mwyafrif o brosiectau seilwaith mawr yn cynnwys darpariaeth ar gyfer digolledu perchnogion eiddo a thrigolion lleol os yw adeiladu seilwaith newydd yn effeithio ar werth eu heiddo.

97. Bydd RWM yn gweithio gyda Phartneriaethau Cymunedol yn ystod y broses leoli i asesu a yw prisiau eiddo lleol yn debygol o ddioddef ac i ystyried a fyddai cynllun cymorth eiddo yn briodol. Pan fydd y gwaith asesu hwn wedi'i gwblhau, bydd penderfyniad yn cael ei wneud a bydd dull gweithredu priodol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer bob cymuned.

# Y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad

98. Y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yw'r gymuned o fewn yr ardal ddaearyddol y gellid, o bosib, lleoli CGD ynddi. Dros amser, bydd hon yn cael ei dewis o ddalgylch yr Ardal Chwilio. Mae angen diffinio ffiniau'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad er mwyn sefydlu pwy fydd yn cael mynegi barn yn y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

99. Yng Nghymru, diffinnir y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad ar sail ardaloedd cynghorau cymuned. Bydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn cynnwys yr holl ardaloedd cynghorau cymuned y mae'r canlynol wedi'u lleoli ynddynt:

- elfennau arfaethedig y CGD fydd ar yr wyneb a dan y ddaear; unrhyw ddatblygiad cysylltiedig sy'n berthnasol i'r cyfleuster CGD ac unrhyw dir sydd ei angen i leddfu ar effeithiau;
- llwybrau/cysylltiadau trafnidiaeth o safle'r CGD i'r porthladd, pen rheilffordd neu'r rhwydwaith priffyrdd agosaf (h.y. lle mae isffyrdd yn cwrdd â'r ffyrdd A agosaf);
- effeithiau ffisegol uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag archwiliadau tanddaearol, adeiladu a gweithredu'r cyfleuster gwaredu daearegol (a amlygir yn sgil gwaith asesu effaith amgylcheddol a gynhelir i gefnogi ymgysylltiad RWM â chymunedau a'i geisiadau am ganiatâd cynllunio).

100. Mae’n debyg y bydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn cynnwys nifer o ardaloedd cynghorau cymuned. Hefyd, gallai'r holl ardaloedd cynghorau cymuned fod wedi'u lleoli o fewn un awdurdod lleol neu gallent groesi ffiniau awdurdodau lleol. Y Bartneriaeth Gymunedol fydd yn cytuno ar ffiniau daearyddol y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad, ar sail gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses leoli a'r meini prawf uchod.

101. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r farn mai dim ond trigolion yr ardal y bydd y datblygiad yn effeithio’n uniongyrchol arni a ddylai gael y gair olaf o ran a ydynt am gynnig lleoliad ar gyfer CGD ai peidio. Y bobl sy’n byw yn y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad, drwy gyfrwng Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd, a fydd yn penderfynu a ydynt am i RWM barhau â'r broses ar gyfer lleoli CGD yn yr ardal. Ystyrir y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd ymhellach ym mharagraffau 110-118.

102. Os yw ffin y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn agos at ffiniau awdurdodau lleol eraill, bydd angen i'r Bartneriaeth Gymunedol ystyried ymgysylltu â phobl mewn awdurdodau lleol cyfagos. Ond ni fyddent yn cael mynegi barn yn y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

# Hawl i Dynnu’n Ôl

103. Gall y gymuned dynnu'n ôl o'r broses ar unrhyw bryd hyd at y pwynt y cynhelir Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

104. Efallai y bydd gan y Bartneriaeth Gymunedol ei hun bryderon ynghylch parhau â'r broses. Neu efallai y bydd yn penderfynu, yn sgil monitro barn y cyhoedd, nad oes unrhyw obaith realistig o feithrin cefnogaeth o fewn y gymuned i CGD.

105. Os oes gan y Bartneriaeth Gymunedol neu'r gymuned bryderon ynghylch y broses leoli, dylai'r Bartneriaeth Gymunedol, gan gynnwys RWM, wneud pob ymdrech i ymdrin â’r pryderon hyn cyn ystyried tynnu'n ôl o'r broses. Mewn sefyllfa fel hyn, gallai RWM gyllido gwasanaethau cyfryngu annibynnol i sicrhau bod y pryderon yn cael eu clywed, eu deall ac y gwneir ymdrechion i ymdrin â nhw.

106. Yr awdurdod(au) lleol perthnasol ar y Bartneriaeth Gymunedol fydd yn penderfynu a ddylid tynnu'r gymuned yn ôl ai peidio. Ni waeth faint o awdurdodau lleol sydd ar y BartneriaethGymunedol, gall awdurdod lleol perthnasol dynnu'r ardaloedd cynghorau cymuned sydd wedi’u lleoli o fewn ei ffiniau o'r broses leoli drwy adael y Bartneriaeth Gymunedol neu drwy weithredu'r Hawl i Dynnu’n Ôl.

107. Efallai y bydd yr awdurdod(au) lleol perthnasol yn penderfynu ceisio barn y gymuned ynghylch tynnu'n ôl o'r broses. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r ymarfer gorau fyddai ymgynghori â'r gymuned ynghylch tynnu'n ôl. Os bydd yr awdurdod(au) lleol yn penderfynu eu bod am ymgynghori â'r gymuned, yna byddai'r penderfyniad ynghylch sut i fynd ati i geisio barn yn benderfyniad y dylai'r Bartneriaeth Gymunedol fel corff ei wneud a dylid ei nodi yn y Cytundeb Cymunedol. Gellid dewis cynnal refferendwm lleol, ymgynghoriad ffurfiol neu bleidlais sy'n ystadegol gynrychioliadol fel dull o geisio barn. Os bydd dulliau ymgynghori newydd yn ymddangos yn y dyfodol, efallai y byddai'r Bartneriaeth Gymunedol yn dymuno ystyried dull gwahanol.

108. Os bydd yr awdurdod(au) lleol perthnasol yn penderfynu ceisio barn y gymuned, trigolion yr Ardal Chwilio (fel y nodwyd ym mharagraffau 42-47) a fyddai'n cymryd rhan neu drigolion y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad (fel y nodwyd ym mharagraffau 98-102) os yw honno wedi cael ei dewis erbyn yr adeg y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i dynnu'n ôl.

109. Gall RWM hefyd dynnu'n ôl o'r broses. Gallai dynnu'n ôl am resymau technegol neu am resymau eraill oedd yn dangos nad oedd bellach unrhyw obaith o ddod o hyd i safle addas naill ai o fewn yr Ardal Chwilio neu o fewn y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad. Gallai RWM hefyd dynnu'n ôl er mwyn blaenoriaethu'r cyllid oedd ar gael ar draws cymunedau eraill yn y broses leoli. Bydd RWM yn dryloyw wrth ystyried tynnu'n ôl o gymuned.

## Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd

110. Cyn y gall RWM geisio cymeradwyaeth reoleiddiol a chaniatâd cynllunio i leoli CGD mewn cymuned benodol, rhaid cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd i weld a yw'r gymuned yn barod i gynnig lleoliad ar gyfer CGD.

111. Bydd yr awdurdod, neu'r awdurdodau lleol perthnasol, os oes mwy nag un, sy'n rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol yn penderfynu os, neu pa bryd, y dylid cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd. Mae'n rhaid i awdurdod lleol perthnasol gytuno i gynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd cyn y gall ardaloedd cynghorau cymuned o fewn ei ffiniau gael eu cynnwys yn y prawf. Fel y nodwyd ym mharagraff 113 bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn rhoi barn ynghylch pa ddulliau y gellid eu defnyddio i gynnal y PrawfCefnogaeth y Cyhoedd.

112. Pwrpas y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd yw cael barn derfynol aelodau'r gymuned ynghylch a ydynt yn barod i gynnig lleoliad ar gyfer CGD yn eu cymuned. Os ceir canlyniad cadarnhaol, yna gall RWM fwrw ymlaen â phrosesau trwyddedu statudol, trwydded amgylcheddol a'r broses gwneud cais am ganiatâd cynllunio i adeiladu CGD. Heb ganlyniad cadarnhaol i'r Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd, ni fydd RWM yn gallu gofyn am

gymeradwyaeth reoleiddiol a chaniatâd cynllunio ar gyfer CGD a bydd y broses leoli yn dod i ben yn y gymuned honno.

113. Cynhelir y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd yn y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad. Yn yr un modd â'r Hawl i Dynnu'n Ôl, mae tri phrif ddull ar gael ar hyn o bryd y gellid eu defnyddio ar gyfer y Prawf, sef: refferendwm lleol, ymgynghoriad ffurfiol neu bleidlais sy'n gynrychioliadol yn ystadegol. Os bydd dulliau newydd o brofi barn y cyhoedd yn dod i'r amlwg yn y dyfodol, efallai y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn dymuno ystyried dull gwahanol.

114. Bydd RWM yn llunio canllawiau a fydd yn nodi'n fwy manwl sut y gallai Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd weithio, ond lle'r Bartneriaeth Gymunedol fydd penderfynu sut y mae am fynd ati. Pa bynnag ddull sy'n cael ei fabwysiadu, mae'n bwysig fod y Bartneriaeth Gymunedol yn cynnal y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd mewn ffordd deg a chadarn. Bydd RWM yn cyllido'r gost o gynnal y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

115. Ni fyddai'r Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd ond yn cael ei gynnal ar ôl ymgysylltu'n helaeth â'r gymuned wedi i'r gymuned gael amser i ofyn cwestiynau, codi pryderon a dysgu am CGD. Un cyfle'n unig fydd i gynnal y Prawf ym mhob Cymuned a Allai Gynnig Lleoliad. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Bartneriaeth Gymunedol fonitro barn y cyhoedd gydol y broses ac fel y trafodwyd ym mharagraffau 103-109 gellir tynnu'r gymuned yn ôl o'r broses unrhyw bryd.

116. Bydd yr Hawl i Dynnu'n Ôl yn peidio â bod ar ôl cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd. Ar ôl sefydlu bod y gymuned yn barod i gynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster, ac ar ôl i RWM ddynodi'r safle a ffafrir, bydd RWM, yn amodol ar gytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, yn mynd ati i wneud ceisiadau yn gofyn am y caniatadau rheoleiddiol a chynllunio perthnasol sy'n angenrheidiol i adeiladu a gweithredu CGD.

117. Mae'n debygol y bydd y cais am ganiatâd cynllunio a'r ceisiadau y bydd RWM yn eu gwneud am amrywiol drwyddedau yn cynnwys elfennau pellach o gyfranogiad y cyhoedd. Mae hyn yn golygu y bydd gan aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol, y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad ac unrhyw aelod arall o'r cyhoedd neu sefydliadau eraill sydd â diddordeb, gyfleoedd pellach i fynegi eu barn yn dilyn canlyniad cadarnhaol i Brawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

118. Mae'r fframwaith Gweithio gyda Chymunedau yn cwmpasu'r broses o ymgysylltu â'r gymuned hyd at y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd. Ar ôl hynny, gall y Bartneriaeth Gymunedol newid i fod yn grŵp cyswllt er mwyn darparu rhyngwyneb parhaus rhwng RWM a'r gymuned leol yn ystod y broses o gael caniatâd cynllunio, y prosesau trwyddedu rheoleiddiol a drwy'r cyfnod o adeiladu, gweithredu a chau'r cyfleuster.